## Gweddi ar Aberth Iesu

Fy Nuw,
Ai hwn dy Fab Iesu sydd yn hongian ar Groes?

Yr un a iachaodd y claf, a'n dysgodd ni sut i fyw yn dy ffyrdd, ac a'n hargyhoeddodd am ddyfodiad dy deyrnasiad?

Yr un oedd i rannu yn llawn yn dy ogoniant ac yn dy ben arglwyddiaeth?

Ai trwy'r hwn oedd yn marw, ai oddi ar y Groes yr wyt yn cyflwyno dy deyrnasiad?

Ai yma yr wyt yn teyrnasu?

Ti, Roddwr bywyd, yn dioddef, yn adnewyddu, yn pwysleisio dy deyrnasiad, lle medrai grym angau ei wthio'i hun:

Yma, wrth wely'r ysbyty, lle mae rhywun yn marw o gancr.

Yma, yng nghanol y darnau a ddrylliwyd yn y ddamwain, lle mae plant â'u cyrff wedi eu cywasgu, yn brwydro i fyw.

Yma, yn y swyddfa les, lle mae y rhai sy'n disgwyl yn mesur eu gobeithion.

Yma, yn y pebyll, lle mae'r ffoaduriaid yn hiraethu am y cartrefi y dihangwyd ohonynt.

Yma, yn y byd, lle mae angau yn bygwth dy blant: dyma lle yr wyt yn llywodraethu.

Rho oleuni dy weledigaeth, O Dduw, fel y medrwn dy ddarganfod Di, ein Creawdwr, ymysg y greadigaeth sydd yn griddfan. Bywha ein calonnau, fel y medr ein tafodau ganu a'n gliniau blygu o flaen yr un a ddyrchafwyd yn ei ddioddefaint.

Rho nerth i'n cariad; a lle mae bywyd yn brwydro i ddal ati deuwn â'th Ysbryd adnewyddol.

Gweddïwn, fel y medrwn fyw, yn enw'r Hwn sydd â'i allu ar ffurf Croes: Iesu, ein Crist. Amen.

***Addasiad o weddi Michael L. Pennanen***